

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CRAWFORD STREET, CASNEWYDD) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”) i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r briffordd. Nid awdurdodir cau’r briffordd ond er mwyn gwneud datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 3 Gorffennaf 2024 o dan y cyfeirnod 22/1033 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Crawford Road, Casnewydd) 202- (“y Gorchymyn”), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 23 Hydref 2024 ymlaen, gellir edrych ar gopiâu o’r Gorchymyn drafft a’r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Canolfan Kingsway, 4 Sgwâr John Frost, Casnewydd NP20 1PA yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA2221701.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y’u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i [Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru](mailto:Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru) erbyn 19 Tachwedd 2024.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o’r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a’ch data personol yn cael eu trosglwyddo i’r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i’r awdurdod priffyrdd lleol i’w galluogi hwy i ymateb i chi. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny’n angenrheidiol er mwyn ymdrin â’r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo’r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (“YC”), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr YC ac fe’i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i’r cyhoedd.

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (CRAWFORD STREET, NEWPORT) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the 1990 Act”) to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Newport City Council on 3 July 2024 with reference 22/1033 and described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Crawford Street, Newport) Order 202- (“the Order”), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 23 October 2024 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Newport Central Library, Kingsway Centre, 4 John Frost Square, Newport NP20 1PA, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2221701.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to [TransportOrdersBranch@gov.wales](mailto:TransportOrdersBranch@gov.wales) by 19 November 2024.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry (“PI”), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**




**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**  
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn petryalog ei siâp o'r droetffordd sy'n gyfagos i'r eiddo yn rhif 22 Crawford Street, Casnewydd, NP19 7AY, sy'n 32 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2.5 metr yn y man lletaf ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 2**  
**Y Datblygiad**

Dymchwel yr adeilad presennol ac adeiladu 30 o fflatiau gyda lleoedd parcio cysylltiedig ac ardaloedd allanol ar safle Gwent Car Sales, Crawford Street, Casnewydd, NP19 7AY.

**SCHEDULE 1**  
**(All measurements are approximate)**  
**Length of highway to be stopped up**

A rectangular shaped length of the footpath adjacent to the property at number 22 Crawford Street, Newport, NP19 7AY, with a maximum length of 32 metres and a maximum width of 2.5 metres and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**  
**The Development**

Demolition of existing building and construction of 30 apartments along with associated parking and external areas at Gwent Car Sales, Crawford Street, Newport, NP19 7AY.